

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Adroddiad Blynyddol

2019 - 2020

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Adroddiad Blynyddol 2019 - 2020

CYNNWYS

Tudalen

Cyfansoddiad, rolau a chyfrifoldebau'r CYSAG	3
Crynodeb gweithredol	5
Crynodeb o'r cyngor a roddwyd i'r awdurdod lleol ynghylch addysg grefyddol	8
Crynodeb o'r cyngor ynghylch addoli ar y cyd	15
Crynodeb o faterion eraill	16
Atodiad 1: Aelodaeth o'r CYSAG	17
Atodiad 2: Cofnod o'r cyfarfodydd	19
Atodiad 3: Cynllun datblygu'r CYSAG: 2020-2023	20
Atodiad 4: Canlyniadau arholiadau 2017 - 2019	26
Atodiad 5: Asesiadau athrawon Blwyddyn 9 - 2019	27
Atodiad 6: Dosbarthu'r adroddiad	29
Atodiad 7: Cyfansoddiad y CYSAG	30

ADRAN 1: GWYBODAETH AM Y CYSAG

CYFANSODDIAD, ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU'R CYSAG

Cyfansoddiad y CYSAG

Caiff aelodaeth y CYSAG ei phennu gan Ddeddfau Addysg 1944 a 1993 a Deddf Diwygio Addysg 1988. Mae'r CYSAG yn cynnwys tri grŵp cyfansoddol:

- enwadau Cristnogol a chrefyddau ac enwadau crefyddol eraill;
- cymdeithasau sy'n cynrychioli athrawon; a'r
- awdurdod lleol (ALI).

Mae enwau'r aelodau a oedd yn cynrychioli pob un o'r grwpiau hyn yn 2019-2020 wedi'u rhestru yn Atodiad 1.

Swyddogaethau'r CYSAG

Dyma brif swyddogaethau'r CYSAG:

- cynghori'r ALI ynghylch addoli ac addysg grefyddol yn unol â'r maes llafur cytunedig, gan gynnwys dulliau dysgu, cyngor ynghylch deunyddiau a darparu hyfforddiant i athrawon;
- ystyried a ddylai gynghori'r ALI i adolygu ei faes llafur cytunedig drwy gynnal Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig;
- ystyried ceisiadau gan ysgolion am benderfyniadau (i'w heithrio rhag y gofyniad i'r addoli fod yn "Gristnogol");
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r ALI a'r Adran Addysg a Sgiliau ar ei weithgareddau.

Cofnod o'r cyfarfodydd

Cynhaliwyd un cyfarfod o'r CYSAG yn ystod blwyddyn academiaidd 2019 – 2020:

- 18 Tachwedd 2019 yn Ysgol Gyfun Bryntirion

Cafodd cyfarfodydd y gwanwyn a'r haf eu canslo oherwydd pandemig Covid-19, ond cafodd aelodau'r CYSAG wybod am y datblygiadau ym maes Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd, a chawsant hefyd wybodaeth fanwl, drwy'r e-bost, am ail ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch Addysg Grefyddol yn ystod tymor yr haf.

Mae cofnod o'r prif eitemau a drafodwyd yn ystod cyfarfod yr hydref i'w weld yn Atodiad 2.

Cynllunio a threfnu gwaith y CYSAG

Mae'r CYSAG wedi cytuno i drefnu a blaenoriaethu ei waith o fewn fframwaith cynllun datblygu. Mae copi o gynllun datblygu 2018-2021 ynghlwm wrth yr adroddiad hwn, gan gynnwys manylion am hynt y gwaith.

Dosbarthu'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn wedi'u dosbarthu i'r sefydliadau/cyrff a restrir yn Atodiad 6.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Crynodeb o'r cyngor a roddodd y CYSAG i'r Awdurdod Lleol

ADDYSG GREFYDDOL

Nod: Monitro safonau addysg grefyddol a'r modd y caiff ei darparu

Camau a gymerwyd

1. Bydd y CYSAG yn trafod ac yn dadansoddi adroddiadau arolygon ysgol. Os oes unrhyw broblemau'n ymwneud ag addysg grefyddol ee os nad yw ysgol yn bodloni'r gofynion statudol, bydd yr ALI yn ymchwilio iddynt. Nid oedd yr adroddiadau'r cyfeirio at unrhyw broblemau'n ymwneud yn benodol ag Addysg Grefyddol fel pwnc nac at unrhyw ddiffygion yn ymwneud â bodloni gofynion statudol ac, felly, nid oedd angen cymryd unrhyw gamau yn y cyswllt hwn.
2. Bydd y CYSAG yn dadansoddi canlyniadau arholiadau dros gyfnod o dair blynedd ac yn nodi unrhyw dueddiadau mewn perfformiad gan eu meincnodi'n ôl data Cymru Gyfan. Caiff ysgolion wybod am ganlyniadau'r dadansoddiad hwn ac am unrhyw broblemau y bydd y CYSAG yn tynnu sylw atynt.
3. Bydd yr ALI a'r CYSAG yn casglu ac yn dadansoddi data am asesiadau athrawon addysg grefyddol CA3. Caiff y wybodaeth hon ei chyflwyno i'r CYSAG.
4. Mae'r CYSAG wedi anfon dogfen ganllaw Cymdeithas CYSAGau Cymru, sef *Rheoli'r Hawl i Dynnu Disgyblion yn ôl o Addysg Grefyddol* i bob ysgol. Nod y ddogfen ddefnyddiol hon yw cynorthwyo ysgolion sy'n ymdrin â cheisiadau i dynnu disgyblion yn ôl o addysg grefyddol a gellir ei rhannu â rhieni sy'n ystyried gwneud hynny.
5. Bydd y CYSAG yn cynnal cyfarfodydd yn yr ysgolion os oes modd, a hynny er mwyn i'r aelodau gyfarwyddo â dulliau o gyflwyno addysg grefyddol yn yr ysgol. Ymwelodd y CYSAG ag un ysgol uwchradd yn ystod y flwyddyn academiaidd hon, ond bu'n rhaid canslo'r ymweliad ag ysgol gynradd oherwydd pandemig Covid-19.

Y MAES LLAFUR CYTUNEDIG

Nod: Bodloni'r gofyniad cyfreithiol i adolygu'r maes llafur cytunedig ar gyfer addysg grefyddol

Cam i'w gymryd

1. Yn 2008, cymeradwyodd a mabwysiadodd y Gynhadledd Sefydlog faes llafur cytunedig ar gyfer ysgolion yr Awdurdod, a chafodd hwn ei roi ar waith ym mis Medi 2008.

2. Ym mis Ebrill 2013, cymeradwyodd y Gynhadledd Sefydlog benderfyniad i ail-fabwysiadu Maes Llafur Cytunedig Addysg Grefyddol Pen-y-bont ar Ogwr, gan nodi y byddai'r maes llafur yn cael ei adolygu cyn gynted ag y byddai gwybodaeth ychwanegol ar gael mewn perthynas â'r asesiad a'r adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol.
3. Ers 2013, a drwy gydol blwyddyn academaidd 2019-2020, mae'r CYSAG wedi cael gwybod bob tymor am y datblygiadau diweddaraf yn y gwaith o adolygu'r Cwricwlwm Cenedlaethol a lle Addysg Gorfforol yn y cwricwlwm Dyniaethau. Mae aelodau'r CYSAG wedi cyfrannu'n llawn at yr ymgynghoriad ynghylch y cwricwlwm newydd ac, yn benodol, lle Addysg Gorfforol yn yr adran Ddyniaethau ac yn gyffredinol, ac mae wedi cynnig sylwadau yn y cyswllt hwn.
4. Mae'r CYSAG yn aros am ragor o fanylion gan Lywodraeth Cymru am le Addysg Grefyddol, neu am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, fel y caiff ei alw'n fuan, yn y cwricwlwm. Mae'r CYSAG yn cael gwybod gan Gymdeithas CYSAGau Cymru am y datblygiadau diweddaraf. Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn cyfrannu at y datblygiadau cwricwlaidd hyn, ac yn rhoi gwybod i'r CYSAG am benderfyniadau Llywodraeth Cymru.

ADNODDAU ADDYSGU

Nod: Sicrhau bod ysgolion yn cael gwybodaeth am adnoddau addysgu addas

1. Cafodd pob ysgol wybod am thema Diwrnod Cofio'r Holocaust 2020. Mae adnoddau perthnasol i'w cael ar eu gwefan, sef www.hmd.org.uk – mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gwersi, clipiau o ffilmiau, astudiaethau achos, adnoddau addoli ar y cyd/gwasanaethau a thafenni gwaith sy'n addas i ddisgyblion oedran cynradd - ôl 16.

HYFFORDDIANT I ATHRAWON

Mater

Sicrhau bod Datblygiad Proffesiynol Parhaus priodol ar gael i bob athro ac athrawes.

Camau i'w cymryd

1. Gan fod Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais ar Lythrennedd a Rhifedd, nid oes hyfforddiant penodol i'r pwnc yn cael ei gynnig.
2. Mae Ymarferwyr Arweiniol Addysg Grefyddol Hwb yn parhau i drefnu cyfarfodydd rhwydweithio i bennaethiaid adran Addysg Grefyddol yn yr ysgolion uwchradd ac athrawon Addysg Grefyddol, ac mae'r rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar wella canlyniadau arholiadau allanol.
3. Mae'r CYSAG yn ymwybodol bod yr angen i ddarparu DPP i athrawon Addysg Grefyddol yn parhau a bod prinder arbenigwyr Addysg Grefyddol.

ADDOLI AR Y CYD

Nod: Sicrhau bod ysgolion yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd a rhoi profiad gwerth chweil i ddisgyblion.

Action

1. Bydd y CYSAG yn monitro'r adrannau hynny yn yr adroddiadau arolygu sy'n ymwneud ag addoli ar y cyd a Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol ac, os nad yw ysgol yn bodloni'r gofynion statudol, bydd yr ALI yn gofyn am ei chynllun gweithredu. Nid chododd problemau o'r fath yn yr adroddiadau a welwyd. Cafwyd sylwadau cadarnhaol ar drefniadau addoli ar y cyd yn yr ysgolion a nodwyd eu bod yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.
2. Mae y CYSAG wedi rhoi gwybod i ysgolion am yr adnoddau a'r gwefannau sydd ar gael i'w cynorthwyo i addoli ar y cyd, gan gynnwys adnoddau a chyingor ynghylch addoli ar y cyd yn ystod cyfnod y pandemig.
3. Bydd y CYSAG yn cynnal cyfarfodydd yn yr ysgolion pan fo modd, a byddai'n croesawu cyfleoedd i'r aelodau fynd i ysgolion yr awdurdod lleol i arsylwi neu i annerch y disgyblion mewn gwasanaethau addoli ar y cyd.

MATERION ERAILL

Nod: Sicrhau CYSAG mwy gwybodus drwy roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau, yn rheolaidd, am faterion lleol a chenedlaethol.

1. Mae'r CYSAG yn dal yn aelod o Gymdeithas CYSAGau Cymru, ac mae'n cael adborth bob tymor yn dilyn cyfarfodydd y gymdeithas.
2. Mae'r aelodau wedi cael cyflwyniadau ac adroddiadau eleni.
3. Bydd y CYSAG yn cynnal cyfarfodydd yn ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr, pan fo modd. Cynhaliwyd cyfarfod tymor yr hydref yn Ysgol Gyfun Bryntirion ond bu'n rhaid canslo'r cyfarfod y trefnwyd i'w gynnal yn Ysgol Gynradd Bro Ogwr yn nhymor tymor y gwanwyn.

ADRAN 2

CRYNODEB O'R CYNGOR YNGHYLCH ADDYSG GREFYDDOL

Y mae llafur cytunedig lleol

Yn ystod tymor y gwanwyn 2008, cymeradwyodd a mabwysiadodd y Gynhadledd Sefydlog faes llafur cytunedig ar gyfer ysgolion yr Awdurdod, a chafodd hwn ei roi ar waith ym mis Medi 2008.

Ym mis Ebrill 2013, cymeradwyodd y Gynhadledd Sefydlog benderfyniad i ail-fabwysiadu Maes Llafur Cytunedig Addysg Grefyddol Pen-y-bont ar Ogwr, gan nodi y byddai'r maes llafur yn cael ei adolygu cyn gynted ag y byddai gwybodaeth ychwanegol ar gael mewn perthynas â'r asesiad a'r adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol.

Yn ystod 2019-2020, mae'r CYSAG wedi cael gwybod bob tymor am y datblygiadau diweddaraf yn y gwaith o adolygu'r cwricwlwm. Maent wedi ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2019 a mis Gorffennaf 2020, ynghylch newid enw Addysg Grefyddol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg a dileu hawl rhieni/gofalwyr i dynnu eu plant yn ôl o'r pwnc, neu ran o'r pwnc. Mae'r CYSAG yn dal yn aros am ragor o fanylion gan Lywodraeth Cymru am natur Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm, a chynghor penodol gan Gymdeithasu CYSAGU Cymru, cyn dechrau adolygu'r maes llafur cytunedig.

Ym mis Tachwedd 2019, ysgrifennodd y CYSAG at benaethiaid uwchradd i'w hatgoffa o'r rhwymedigaeth gyfreithiol i addysgu Addysg Grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 4 ac i roi gwybod iddynt nad yw cymwysterau Lefel 2, fel ABGI Agored Cymru neu gymhwyster Cydraddoldeb ac Amrywiaeth NCFE, yn bodloni'r gofyniad cyfreithiol o ran addysgu Addysg Grefyddol yn unol â'r maes llafur cytunedig lleol.

Safonau addysg grefyddol

Mae'r CYSAG wedi mabwysiadu nifer o strategaethau i fonitro safonau addysg grefyddol yn ysgolion yr awdurdod: mae'r rhain yn cynnwys dadansoddi adroddiadau arolygu ysgolion, adolygu canlyniadau arholiadau a dadansoddi data ar ddiwedd cyfnod allweddol 3.

- **Canlyniadau arholiad**

Ystyriodd y CYSAG berfformiad ysgolion uwchradd yn arholiadau 2019. Caiff canlyniadau arholiad eu cymharu â ffigurau Cymru gyfan, a chanlyniadau'r blynyddoedd blaenorol. Caiff aelodau'r CYSAG hefyd wybod am ganran cohort blwyddyn 11 a gofrestrir i sefyll arholiadau astudiaethau crefyddol TGAU. Caiff canlyniadau arholiad a CA3 eu cyhoeddi fel atodiad ynghyd â chanlyniadau 2017 a 2018.

TGAU ASTUDIAETHAU CREFYDDOL CWRS LLAWN (Blwyddyn 11)

- Yn 2019, cofrestrwyd 750 o ddisgyblion o 8 o ysgolion. Roedd y nifer hwn yn is na'r nifer yn 2018, ac roedd un ysgol yn llai. Roedd dros gant o ymgeiswyr mewn 4 ysgol, ac roedd y nifer mewn ffigurau dwbl mewn 4 ysgol arall.
- Gostyngodd y cohort o ymgeiswyr, ar gyfartaledd, o 57.9% y llynedd i 50.8% yn 2019. Mae'r ffigur ar gyfer ymgeiswyr 2019 yn uwch na'r ffigurau cyfatebol ar gyfer y Consortiwm a Chymru Gyfan.
- Canran gyffredinol y graddau A*- A oedd 26.7%, sy'n is na'r ganran gyfatebol yn 2018, a oedd yn flwyddyn arbennig o gref. Mae'r ffigur yn debyg i'r ffigur ar gyfer 2017 ac yn cyd-fynd â ffigurau'r Consortiwm a Chymru Gyfan.
- Canran gyffredinol y graddau A*- C oedd 62.7%, sy'n cyfateb i ffigurau'r Consortiwm a Chymru Gyfan.
- Canran gyffredinol y graddau A*- G oedd 96.7%, sydd ychydig uwchlaw ffigurau'r Consortiwm a Chymru Gyfan.

Casgliadau

- Gostwng o hyd mae nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau TGAU Astudiaethau Crefyddol
- Mae'r canlyniadau'n cyfateb i ffigurau'r Consortiwm a Chymru Gyfan, neu'n uwch, a hynny o fewn ffiniau'r graddau i gyd.

TGAU ASTUDIAETHAU CREFYDDOL - CWRS BYR 2019 (Blwyddyn 11)

- Yn 2019, cofrestrwyd 162 o ddisgyblion o bump o ysgolion yr Awdurdod ar gyfer cwrs byr Astudiaethau Crefyddol, sy'n dangos bod y niferodd yn parhau i ostwng ers 2017.
- 11.0%, ar gyfartaledd, oedd y cohort o ymgeiswyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2019, sy'n is na'r ganran yn y blynyddoedd blaenorol ac mae wedi haneru bron ers 2017 pan oedd y ganran cymaint â 20.4%. Mae ffigurau'r Consortiwm a Chymru Gyfan yn dangos yr un gostyngiad.
- Roedd 50+ o ymgeiswyr mewn 2 ysgol.
- Canran gyffredinol y graddau A*-A oedd 26.7%, sy'n gynydd aruthrol ers y llynedd (1.9%), sy'n arwydd cryf bod ysgolion yn mabwysiadu'r arfer o ddethol disgyblion. Mae ffigurau'r Consortiwm a Chymru Gyfan hefyd gryn dipyn yn is na ffigurau'r ALI eleni, sef 11.0% a 10.0%, yn y drefn honno.
- Canran gyffredinol y graddau A*- C oedd 62.7% , sy'n gynydd sylweddol eto ers 2018 a chryn dipyn yn uwch na ffigurau'r Consortiwm a Chymru Gyfan (38.0% a 35.0% yn y drefn honno).
- Canran gyffredinol y graddau A*- G oedd 94.7%, sy'n uwch o lawer na'r ganran y llynedd a chryn dipyn yn uwch hefyd na ffigurau'r Consortiwm a Chymru Gyfan (87.0% a 73.8% yn y drefn honno).

Casgliadau

- Gostwng o hyd mae nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau Cwrs Byr TGAU Astudiaethau Crefyddol
- Mae'r canlyniadau ar bob lefel gryn dipyn yn well na chanlyniadau'r llynedd ac yn well na ffigurau'r Consortiwm a Chymru Gyfan, ac mae hyn yn dangos bod yr ysgolion yn dethol disgyblion i sefyll yr arholiad.

TAG ASTUDIAETHAU CREFYDDOL (SAFON UWCH) 2019

	Pen-y-bont ar Ogwr 2017	Pen-y-bont ar Ogwr 2018	Pen-y-bont ar Ogwr 2019	Consortiwm 2019	Cymru 2019
A*-A	29.4%	20.3%	38.5%	40.3%	21.0%
A*-C	80.4%	78.2%	70.5%	71.4%	72.0%
A*- E	95.1%	97.7%	87.8%	85.5%	99.0%
Nifer yr ymgeiswyr	143 o ymgeiswyr 9 ysgol	133 o ymgeiswyr 9 ysgol	156 o ymgeiswyr 9 ysgol	392 o ymgeiswyr	935 o ymgeiswyr

- Roedd 156 o ymgeiswyr o 9 ysgol ac mae'r nifer wedi cynyddu ychydig eleni. Roedd y nifer mewn 4 ysgol mewn ffigurau dwbl.
- Canran y graddau A*- A oedd 38.5%, sy'n gynydd sylweddol o ystyried perfformiad yn y ddwy flynedd flaenorol. Er ei bod ychydig yn is na ffigur y Consortiwm, mae 17% yn uwch na ffigur Cymru Gyfan.
- Canran gyffredinol y graddau A*- C oedd 70.5%, sy'n is na'r perfformiad y llynedd. Mae hyn yn cyd-fynd â ffigur y Consortiwm ond ychydig yn is na ffigur Cymru Gyfan.
- Canran gyffredinol y graddau A*- E oedd 87.8%, sy'n is na'r ganran yn 2018 ond ychydig yn uwch na ffigur y Consortiwm. Y mae, fodd bynnag yn is na ffigur Cymru Gyfan.

Casgliadau

Mae'r disgyblion o 9 o ysgolion yr ALI yn parhau i sefyll arholiadau Addysg Grefyddol Safon Uwch ac roedd cynnydd yn y niferoedd yn 2019. Mae perfformiad ar lefel uchaf wedi gwella'n sylweddol ers y blynyddoedd blaenorol, ac mae ffigurau'r ALI yn well na ffigur Cymru Gyfan ar y lefel hon.

Roedd y nifer y sicrhodd graddau A*-C, ac A* - E ychydig yn is yn 2019.

ASTUDIAETHAU CREFYDDOL TAG (UWCH GYFRANNOL) 2019

	Pen-y-bont ar Ogwr 2017	Pen-y-bont ar Ogwr 2018	Pen-y-bont ar Ogwr 2019	Consortiwm 2019	Cymru 2019
A	7.4%	10.0%	17.9%	15.3%	19.0%
A - C	44.4%	43.3%	64.3%	50.8%	57.0 %
A - E	81.5%	96.7%	92.9%	88.1 %	90.0%
Nifer yr ymgeiswyr	27 o ymgeiswyr 7 ysgol	30 o ymgeiswyr 6 ysgol	28 o ymgeiswyr 4 ysgol	118 o ymgeiswyr	978 o ymgeiswyr

Roedd nifer yr ymgeiswyr yn cyfateb i'r nifer yn 2017 a 2018, ond roeddent yn dod o nifer lai o ysgolion. Dim ond mewn un ysgol roedd nifer yr ymgeiswyr mewn ffigurau dwbl.

Mae'r % a gafodd radd A wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf, ac mae ffigur 2019 yn well na pherfformiad y Consortiwm a dim ond ychydig yn is na ffigur Cymru Gyfan.

Bu cynnydd sylweddol yn y ganran a gafodd radd A - C o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol, ac yn uwch na ffigurau'r Consortiwm a Chymru Gyfan.

Er bod y ganran a lwyddodd i sicrhau gradd A - E yn is na'r ganran yn y flwyddyn flaenorol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'n cymharu'n dda â'r perfformiad yn 2017 ac yn well na ffigurau'r Consortiwm a Chymru Gyfan.

Casgliadau

Er bod y nifer sy'n sefyll arholiadau Addysg Grefyddol Safon Uwch wedi bod yn weddol sefydlog dros y tair blynedd diwethaf, mae'r niferoedd yn isel ac maent yn dod o nifer lai o ysgolion.

Roedd perfformiad yr ALI o ran graddau A-C yn gryf ac yn dangos cynnydd o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol ac, er bod ffigurau'r ALL ychydig yn is o ran graddau A-E o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol, mae'n well na chyfartaledd y Consortiwm a Chymru Gyfan.

Data cyfnod allweddol 3

Nid yw asesiadau athrawon yn cael eu safoni'n allanol. Bydd athrawon yn dyfarnu gradd ar gyfer pob disgybl ar sail gwybodaeth asesu a gafodd ei chasglu yn ystod cyfnod allweddol 3. Bydd deunyddiau enghreifftiol ar gael i ysgolion i ganiatáu iddynt safoni gwaith yn fewnol yn ôl y disgrifiadau lefel yn y maes llafur cytunedig.

- L5+ yw'r ffigur ar gyfer y disgyblion hynny sy'n sicrhau lefel 5 neu uwch mewn Addysg Grefyddol
- L6+ yw'r ffigur ar gyfer y disgyblion hynny sy'n sicrhau lefel 6 neu uwch mewn Addysg Grefyddol
- L7+ yw'r ffigur ar gyfer y disgyblion hynny sy'n sicrhau lefel 7 neu uwch mewn Addysg Grefyddol
- DL nid oedd modd dyfarnu lefel i'r disgyblion hyn

Casgliadau

- Ym mhob lefel, roedd perfformiad y merched yn well na'r bechgyn yn Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr a drwy'r Consortiwm cyfan.
- Dyfarnwyd L5+ i 93% o holl ddisgyblion Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n cyfateb i ffigurau 2018, ac yn uwch na pherfformiad y Consortiwm. Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched wedi cau ychydig, o 7.6% yn 2018 i 6% yn 2019

- Dyfarnwyd L6+ i 65.6%, sy'n cyfateb i ffigurau'r flwyddyn flaenorol. Perfformiodd y bechgyn ychydig yn well nag a wnaethant yn 2018 ac mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched wedi cau ychydig, o 22.7% i 20.5%. Roedd canlyniadau cyffredinol L6+ gryn dipyn yn well na ffigurau'r Consortiwm.
- Dyfarnwyd L7+ i 26.4% o'r holl ddisgyblion. Mae'r canlyniadau'n cyfateb i ffigurau'r flwyddyn flaenorol. Y bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yw 20%, sy'n cyfateb i ganlyniadau'r flwyddyn flaenorol, ond yn fwy na'r bwlch yn 2017. Roedd canlyniadau cyffredinol L7+ gryn dipyn yn well na ffigurau'r Consortiwm.

Mae tablau manwl sy'n dangos canlyniadau arholiadau TGAU a manylion llawn Cyfnod Allweddol 3, i'w gweld yn **Atodiadau 4 a 5**.

- **Adroddiadau arolygu ysgolion**

Er mwyn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, bydd y CYSAG yn cael adroddiadau cryno gan swyddogion proffesiynol sy'n nodi casgliadau archwiliadau ac arolygon Estyn. Rhwng mis Mehefin 2019 a mis Mawrth 2020, pan ddaeth arolygon i ben oherwydd pandemig Covid-19, arolygwyd 4 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd.

Cyfeiriodd yr holl adroddiadau at Addysg Grefyddol a/neu addoli ar y cyd. Roedd y casgliadau'n cynnwys y canlynol:

Nodweddion da

Mae ysgolion yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion drwy ddulliau amrywiol gan gynnwys gwasanaethau, gwersi Addysg Grefyddol, ymweliadau addysgol a gweithgareddau allgyrsiol.

Mae gwasanaethau, arfer yn yr ystafell ddosbarth, caneuon a gweddïau beunyddiol yn werthfawr gan eu bod yn rhoi amlygrwydd a statws i'r Gymraeg.

Mae tystiolaeth yn dangos bod darpariaeth effeithiol i feithrin dealltwriaeth o faterion ysbrydol, moesol, cymdeithasol, crefyddol a diwylliannol gan gynnwys sefydlu partneriaethau cryf â chyrff sy'n hyrwyddo datblygiad diwylliannol ac ysbrydol y disgyblion.

Mae ysgolion yn hyrwyddo parch a goddefgarwch ac yn dathlu amrywiaeth yn llwyddiannus drwy gyflwyno pynciau drwy'r ysgol gyfan.

Mae disgyblion yn meithrin dealltwriaeth eang o grefyddau'r byd drwy gyflwyno amrywiaeth briodol o weithgareddau.

Mae gwasanaethau addoli ar y cyd yn cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol a moesol ac yn hyrwyddo ethos yr ysgol a'r gymuned yn dda.

Nid oedd yr un adroddiad yn cyfeirio at feysydd i'w datblygu ym maes Addysg Grefyddol nac addoli ar y cyd.

Dulliau addysgu, dewis deunyddiau dysgu, hyfforddiant athrawon

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

HMS

Caiff holl gyrsiau'r awdurdod lleol eu cynnig gan Gonsortiw Canolbarth y De. Gan fod Llywodraeth Cymru yn pwysleisio rhifedd a llythrennedd, ni chaiff hyfforddiant penodol i'r pwnc ei gynnig.

Mae'r Consortiw yn parhau i hwyluso Hwb i'r Prif Ymarferwyr, sef rhwydwaith dan arweiniad athrawon ar gyfer penaethiaid AG ysgolion uwchradd yn bennaf. Cynhelir cyfarfodydd bob tymor sy'n canolbwyntio'n bennaf ar wella canlyniadau arholiadau allanol Astudiaethau Crefyddol.

Deunyddiau Addysgu

Adnoddau Diwrnod Cofio'r Holocaust 2020

Cafodd yr holl ysgolion wybod am thema Diwrnod Cofio'r Holocaust 2020. Cawsant wybod gan y CYSAG y byddai rhagor o wybodaeth am y thema, ac adnoddau addysgol yn ymwneud â'r Holocaust, ar gael ar eu gwefan, sef www.hmd.org.uk – mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, astudiaethau achos, deunyddiau addoli ar y cyd/gwasanaethau a thafleuni gwaith sy'n addas i ddisgyblion oedran cynradd - ôl 16.

Yn ystod misoedd y pandemig, bu Cymdeithas CYSAGau Cymru yn paratoi adnoddau a chyngor ar gyfer Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd a chafodd y rhain eu dosbarthu i ysgolion gan y CYSAG.

ADRAN 3 CRYNODEB O'R CYNGOR YNGHYLCH ADDOLI AR Y CYD

Mae'r gwaith o fonitro addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol ysgolion wedi parhau drwy adolygu canlyniadau adroddiadau arolygu.

3.1 ADRODDIADAU AROLYGU YSGOLION

Mae Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn yn nodi mai dim ond enghreifftiau o fethu cydymffurfio â'r gofynion statudol addoli ar y cyd y dylai arolygwyr eu cynnwys yn eu hadroddiadau. Nid oedd dim un o'r adroddiadau a ddadansoddwyd yn cyfeirio at enghreifftiau o ysgolion nad oeddent yn cydymffurfio â'r gofynion statudol, felly nid oedd angen cymryd unrhyw gamau dilynol.

Roedd sylwadau'n ymwneud â datblygiad ysbrydol ym mhob un o'r adroddiadau bron ac, yn gyffredinol, roeddent yn gadarnhaol, sy'n awgrymu bod disgyblion yn cael profiadau da.

Nodweddion da a meysydd i'r datblygu – gweler yr adran uchod

3.2 CEISIADAU AM BENDERFYNIADAU

Ni chafwyd unrhyw gais gan ysgolion am benderfyniad i ddileu'r gofyniad i addoli ar y cyd fod yn gwbl neu'n gyffredinol Gristnogol ei natur.

3.3 YMWELD AG YSGOLION

Cafodd aelodau'r CYSAG gyfle i gynnal cyfarfod yn un o'r ysgolion uwchradd eleni. Rhoddodd y disgyblion gyflwyniad ar werth Addysg Grefyddol a oedd yn dangos eu bod yn mwynhau dysgu am y pwnc.

Bu'n rhaid canslo'r cyfarfod y trefnwyd i'w gynnal yn y gwanwyn yn un o ysgolion cynradd yr awdurdod lleol.

ADRAN 4 CRYNODEB O'R MATERION ERAILL

4.1 CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU

Mae'r CYSAG yn parhau i gefnogi gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru ac yn cydnabod gwerth y corff i'r gwaith o hyrwyddo addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn genedlaethol. Yn ystod 2019-2020, cafodd y CYSAG wybodaeth lawn am yr hyn a drafodwyd yng nghyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru. Y Parchedig Ganon Edward Evans sy'n cynrychioli'r CYSAG ar bwyllgor gweithredol Cymdeithas CYSAGau Cymru, a bydd Angela Hill, ei hymngynghorydd proffesiynol, yn bresennol yn y cyfarfodydd hefyd. Caiff yr aelodau adborth yn rheolaidd ganddyn nhw a chynrychiolwyr eraill sy'n mynd i gyfarfodydd y Gymdeithas.

4.2 DYSGU AM YR HOLOCOST

Cafodd yr holl ysgolion wybod am thema Diwrnod Cofio'r Holocost 2020. Cawsant wybod gan y CYSAG y byddai rhagor o wybodaeth am y thema, ac adnoddau addysgol yn ymwneud â'r Holocost, ar gael ar eu gwefan, sef www.hmd.org.uk – mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, astudiaethau achos, deunyddiau addoli ar y cyd/gwasanaethau a thafenni gwaith sy'n addas i ddisgyblion oedran cynradd - ôl 16.

4.3 ADOLYGIAD LLYWODRAETH CYMRU O'R CWRICWLWM CENEDLAETHOL

Mae'r CYSAG wedi cael gwybod bob tymor am hynt yr Adolygiad o Addysg Grefyddol a'r goblygiadau i AG yn y cwricwlwm. Mae AG yn debygol o gael enw newydd, sef Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd yn ofyniad statudol o'r oedran meithrin i ddisgyblion 16 oed a dylai fod yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae'r Gweinidog Addysg yn cynnig dileu'r hawl i rieni i dynnu eu plant yn ôl o Addysg Grefyddol/ Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yng Nghymru. Mae cynigion hefyd yn ymwneud â statws meysydd llafur cytunedig lleol wedi'u

trafod â'r CYSAG. Mae aelodau'r CYSAG hefyd wedi cael gwybodaeth a chyngor manwl cysylltiedig â'r materion hyn a chawsant gyfle i roi sylwadau a gofyn cwestiynau. Mae'r CYSAG wedi ymateb i'r ddau ymgynghoriad a gynhaliodd Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Addysg Grefyddol/ Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

4.4 HYFFORDDIANT I AELODAU'R CYSAG

Fel rhan o hyfforddiant i'w aelodau, cynigiodd y CYSAG y canlynol:

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddatblygiadau ym maes AG ac addoli ar y cyd drwy gyflwyniadau, trafodaethau a chyngor rheolaidd gan ymgynghorwyr y CYSAG. Eleni, rhoddodd Angela Hill gyflwyniad at ddatblygiadau ym maes Cwricwlwm Newydd Cymru a'r goblygiadau i AG.
- Pan oedd modd, cynhaliodd y CYSAG gyfarfodydd yn ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr i'r aelodau mgyfarwyddo â'r dulliau o gyflwyno AG ac addoli ar y cyd mewn ysgolion. Ymwelodd y CYSAG ag un ysgol uwchradd, ond bu'n rhaid canslo'r ymweliad ag ysgol gynradd yn y gwanwyn oherwydd pandemig Covid-19.
- Yn y dyfodol, mae'r CYSAG yn bwriadu cynnal cyfarfodydd mewn mannau addoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr os oes modd, a hynny er mwyn i'r aelodau ymgyfarwyddo â'r cymunedau ffydd ac ystyried y profiadau y gellir eu cynnig i ysgolion drwy drefnu iddynt ymweld â'r llefydd hyn. Ni chynhaliwyd ymweliad â mannau addoli eleni.

Atodiad 1: AELODAETH CYSAG 2019 - 2020

Awdurdod Addysg Lleol

Y Cynhgorydd Cheryl Green- (Is-gadeirydd 2016/17)

Y Cynghorydd Charles Smith

Y Cynghorydd Jeff Tildesley

Y Cynghorydd John McCarthy

Y Cynghorydd Carolyn Webster

Cymdeithasau Athrawon

Angela Keller (ASCL) Yr Archesgob McGrath
Ceris Matthews (NAS/UWT) Ysgol Gyfun Bryntirion
Alice Parry (ATL) Coleg Cymunedol y Dderwen
Lowri Florence (NUT) Ysgol Gyfun Brynteg
Christine Jones (NAHT) Ysgol Gynradd Llangrallo
Cathryn Davies - Jones (VALRETA) Ysgol Arbennig Heronsbridge
Meleri Jones (UCAC) Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd

Enwadau crefyddol

Sulaman Hawas - Yn cynrychioli'r ffydd Fwslimaidd
Y Parchedig Philip Manghan - Yn cynrychioli'r Eglwys Gatholig
Mrs Mairwen Crockett - Yn cynrychioli Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru
Parch. Ganon Edward Evans - Yn cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru
Dhira Bhakta Dasa - Yn cynrychioli'r ffydd Hindwaidd
Craig Hopkins, Gweinidog Arweiniol Tabernacl Bracla

Aelod Cyfetholedig

Brian Williams - Yn cynrychioli Cymdeithas y Dyneiddwyr

Swyddogion yr ALI

Lindsay Harvey – Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd a Chyfarwyddwr Arweiniol Consotriwm Canolbarth y De CYSAG
Sue Roberts - Rheolwr y Grŵp Gwella Ysgolion
Helen Shepherd – Clerc y CYSAG
Angela Hill – Ymgynghorydd AG Annibynnol

Atodiad 2: COFNOD O'R CYFARFODYDD A'R PRIF EITEMAU AR YR AGENDA

18 Tachwedd, 2019 yn Ysgol Gyfun Bryntirion

- Croeso ac ymddiheuriadau
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol
- Materion yn codi
- Y cyfansoddiad/aelodaeth
- Hawl i dynnu plant yn ôl o AG / Datganiad y Gweinidog
- Sylwadau ar sefydlu gweithgor y CYSAG ar gyfer y Consortiwm cyfan
- Adroddiad Blynyddol 2018-19
- Cynllun datblygu'r CYSAG
- Monitro safonau – crynodeb o'r arolygon
- Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf

Atodiad 3: CYNLLUN DATBLYGU CYSAG PEN-Y-BONT AR OGWR 2020-2023

Nod 1: Monitro safonau Addysg Grefyddol ac Astudiaethau Crefyddol. Gweithio gyda staff ysgolion i hybu'r uchod ac i ychwanegu gwerth at waith y CYSAG

Cwestiynau i'w hystyried

- *I ba raddau rydym ni'n gwybod sut mae ein hysgolion a'r CYSAG yn llwyddo?*
- *A oes gennym ni ddigon o wybodaeth i ffurfio barn?*
- *Beth arall y gallem mi ei wneud?*
- *A oes unrhyw ffordd y gallem hybu datblygiad proffesiynol athrawon – DPP?*
- *Beth y mae angen i ni ei wneud i helpu ysgolion i ddeall rôl y CYSAG?*

Meysydd i'w datblygu	Amserlen o'r camau i'w hystyried	Y rhai a fydd ynghlwm wrth y gwaith	Amser a chostau	Canlyniadau	Cynnydd hyd at fis Mehefin 2020
1.1 Monitro safonau drwy adolygu adroddiadau arolygu/adolygiadau thematig Estyn/ adroddiadau hunanwerthuso ysgolion yn rheolaidd, ac awgrymu camau i'r Awdurdod Lleol eu cymryd, os oes angen.	Eitem flynyddol ar yr agenda Tymor yr hydref	Y CYSAG llawn Ymgynghorydd	Amser ar yr agenda Amser i'r ymgynghorydd ddadansoddi'r wybodaeth	Cynghori'r ALL ynghylch tueddiadau drwy'r fwrdeistref sirol; cynghori ynghylch ysgolion penodol, os yw'n briodol; ymweliadau dilynol ag ysgolion ac adolygu'r cynllun gweithredu os oes angen.	Cafodd arolygon eu dadansoddi'n rheolaidd. Roedd y mwyafrif yn rhoi barn am AG, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol ac nid oedd yr un awgrym nad yw ysgolion yn bodloni'r gofynion
1.2 Cael gwybodaeth am ganlyniadau:	Tymor y	Y CYSAG	Amser ar yr	Cynghori'r ALL ynghylch	Mae aelodau'r CYSAG

Asesiadau athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3; TGAU Astudiaethau Crefyddol – Cwrs Llawn a Byr; Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch/UG	gwanwyn	llawn Ymgynghorydd	agenda Amser i'r ymgynghorydd ddadansoddi'r wybodaeth	tueddiadau; cynghori ynghylch ysgolion penodol, os oes angen.	yn cael data canlyniadau 2019 ar gyfer CA3, 4 a 5.
1.3 Nodi anghenion DPP, monitro hyfforddiant a rhoi cyngor.	Tymor yr hydref	Y CYSAG llawn	Amser ar yr agenda	Cafwyd rhaglen hyfforddi ynghyd â ffigurau'n dangos y nifer a fanteisiodd arni; cyngor i'r ALI.	Mae Hwb yr Ymarferwyr Arweiniol i benaethiaid uwchradd ac athrawon AG yn cwrdd bob tymor, ac yn canolbwyntio ar ddatblygu adnoddau a gwella canlyniadau arholiadau AG allanol, a bydd y cwricwlwm newydd yn parhau i alw am hyn.
1.4 Gwneud mwy i gynnwys staff ysgolion yng ngwaith y CYSAG	Yn parhau	Y CYSAG llawn athrawon	Amser ar yr agenda	Dealltwriaeth well ymysg holl aelodau'r CYSAG o waith ysgolion a dealltwriaeth well o waith y CYSAG	Cyfrannodd staff ysgolion at drafodaethau ar bob agwedd ar waith y CYSAG gan gyfrannu hefyd at ymatebion y CYSAG i'r ddau ymgynghoriad a gynhaliodd Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Caiff

					cyfarfodydd eu cynnal mewn ysgolion pan fo modd.
--	--	--	--	--	--

Nod 2: Adolygu'r maes llafur cytunedig (fel y bo'n briodol) a chynorthwyo i'w roi ar waith, gan ystyried trefniadau'r cwricwlwm newydd ar gyfer AG fel y cânt eu rhoi ar waith.

Cwestiynau i'w hystyried

- *Sut y bydd trefniadau'r cwricwlwm newydd yn effeithio ar y gwaith?*
- *Pa gymorth fydd eich angen ar ysgolion?*
- *Beth yw'r ffordd orau o ddiweddarau aelodau'r CYSAG am y cwricwlwm newydd?*

Meysydd i'w datblygu	Amserlen o'r camau i'w hystyried	Y rhai a fydd ynghlwm wrth y gwaith	Amser a chostau	Canlyniadau	Cynnydd
2.1 Adolygu'r maes llafur cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol	Haf 2019 ymlaen (neu fel y bo'n briodol)	Y CYSAG llawn Ymgynghorydd Gweithgor PYCAG	Amser ymgynghori i adolygu'r maes llafur cytunedig. Sefydlu gweithgor (os yw'n berthnasol). Trefnu Cynhadledd Sefydlog i fabwysiadu'r maes llafur Costau cyhoeddi / cyfieithu (fel y bo'n briodol)	Y maes llafur cytunedig wedi'i adolygu a'i fabwysiadu gan y Gynhadledd Sefydlog. Rhaglen hyfforddi i ysgolion ar y Maes Llafur Cytunedig i ysgolion (os oes angen) Rhoi'r maes llafur cytunedig ar waith yn nhymor yr hydref wedi iddo gael ei	Mae materion cwricwlaidd yn cael eu trafod bob tymor yng nghyfarfodydd y CYSAG. Gan fod y CYSAG yn dal yn ansicr ynghylch y newidiadau posibl cysylltiedig â'r cwricwlwm newydd bydd angen i hyn fod ar yr agenda ym mhob cyfarfod.

				fabwysiadu.	
2.2 Deunyddiau i helpu i roi maes llafur cytunedig AG ar waith	Yn parhau	Y CYSAG llawn Ymgynghorydd	Amser ymgynghori	Deunyddiau ar gyfer ysgolion drwy wefan y Consortiwm.	Gellir cysylltu â Chymdeithas CYSAGau Cymru a PYCAG i gael cyngor - disgwyl am benderfyniadau gan Lywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn.
2.3 Cael y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith o gyflwyno AG fel rhan o'r cwricwlwm newydd	Yn unol â phroses weithredu Llywodraeth Cymru	Y CYSAG llawn Ymgynghorydd	Amser cynghori	Ysgolion yn wybodus ac yn barod i gyflwyno'r trefniadau newydd	Bydd datblygu'r Cwricwlwm ar bob agenda. Mae'r aelodau wedi cymryd rhan mewn trafodaethau manwl ar faterion yn ymwneud â lle AG yn y Cwricwlwm Newydd ac wedi cyfrannu at ddau o ymgynghoriadau eraill Llywodraeth Cymru.

Nod 3: Monitro'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd a chynorthwyo yn y cyswllt hwn.

Cwestiynau i'w hystyried

- A oes ffyrdd eraill i aelodau'r CYSAG fonitro'r uchod?
- Cysylltiadau ag Estyn?

Meysydd i'w datblygu	Amserlen o'r camau i'w hystyried	Y rhai a fydd ynghlwm wrth y gwaith	Amser a chostau	Canlyniadau	Cynnydd
3.1 Monitro'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd drwy adolygu adroddiadau arolygu / adroddiadau hunanwerthuso ysgolion yn rheolaidd; ac awgrymu camau i'r Awdurdod Lleol eu cymryd, os oes angen.	Eitem flynyddol ar yr agenda Tymor yr hydref	Y CYSAG llawn a Chynghorydd	Amser ar yr agenda Amser i'r ymgynghorydd ddadansoddi'r wybodaeth	Cynghori'r ALI ynghylch y tueddiadau drwy'r ALI; cynghori ynghylch ysgolion penodol, os yw'n briodol; cysylltiad dilynol ac adolygu'r cynllun gweithredu os oes angen.	<i>Gweler rhif 1-</i> dadansoddiwyd pob adroddiad arolygu ac adolygiad Estyn – e.e. mae CA2 a CA3 wedi'u dadansoddi
3.2 Cynorthwyo ysgolion i fodloni gofynion statudol addoli ar y cyd	Yn parhau	Y Gwasanaeth Cynghori	Amser ymgynghori	Darparu HMS (os yw'n briodol) Caiff ysgolion wybod am adnoddau a gwefannau ar gyfer addoli ar y cyd. Caiff ysgolion wybod am y deunyddiau canllaw sydd ar gael ar gyfer addoli ar y cyd	Caiff achosion o ysgolion nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion eu trin wrth iddynt godi.

Nod 4: Sicrhau CYSAG mwy gwybodus drwy ddiweddarau'r aelodau'n rheolaidd am faterion lleol a chenedlaethol yn ymwneud ag AG ac addoli ar y cyd mewn ysgolion.

Cwestiynau i'w hystyried

- *Beth yw'r ffordd orau i aelodau'r CYSAG ddatblygu rôl y Cyngor?*
- *Ym mha ffyrdd eraill y gallwn ni sicrhau bod ysgolion a'r gymuned leol yn deall rôl a gwaith y CYSAG?*
- *Beth y mae angen i ni ei wneud i wella fel CYSAG?*

Meysydd i'w datblygu	Amserlen o'r camau i'w hystyried	Y rhai a fydd ynghlwm wrth y gwaith	Amser a chostau	Canlyniadau	Cynnydd

4.1 Diweddarau'r aelodau am rôl y CYSAG a'r goblygiadau; datblygiadau diweddaraf ym maes AG ac addoli ar y cyd; deunyddiau canllaw gan gyrrff perthnasol; cyfraniad gan athrawon wrth eu gwaith a darparwyr allanol	Bob tymor / blwyddyn yn ôl yr angen	Aelodau'r CYSAG, Cynghorydd, athrawon wrth eu gwaith, darparwyr allanol	Amser yr aelodau; Amser cynghorydd / swyddogion	Mae aelodau'r CYSAG yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Caiff y CYSAG a'r ysgolion wybod am y datblygiadau a'r mentrau diweddaraf, yn lleol ac yn genedlaethol.	Mae cyfraniad cynrychiolwyr athrawon yng nghyfarfodydd y CYSAG wedi helpu yn y cyswllt hwn, ynghyd â chynngor gan ymgynghorydd y CYSAG a gwybodaeth gan Gymdeithas CYSAGau Cymru a, phan fo'n briodol, PYGAC
4.2 Rhaglen ymweliadau ag ysgolion.	Bob tymor / blwyddyn yn ôl yr angen	Aelodau'r CYSAG, Cynghorydd / Swyddogion	Amser yr aelodau; Amser swyddogion i drefnu ymweliadau	Mae'r CYSAG yn gwybod mwy am y ddarpariaeth ar gyfer AG ac addoli ar y cyd ac arfer yn yr ysgolion.	Trefnir dau gyfarfod bob blwyddyn yn ysgolion yr awdurdod lleol. Caiff aelodau eu hannog i ymweld ag ysgolion.
4.3 Sicrhau bod yr aelodau'n ymwybodol o gryfderau'r CYSAG a'r meysydd i'w datblygu	Bob tymor / blwyddyn yn ôl yr angen	Aelodau'r CYSAG, Cynghorydd / Swyddogion	Amser yr aelodau; Amser swyddogion i drefnu ymweliadau	Gweler 4.1	Mae'r gwaith yn parhau wrth i'r cynllun datblygu gael ei ddiweddarau.
4.4 Datblygu gwaith y CYSAG ar draws y 5 awdurdod lleol yng Ngwasanaeth Addysg ar y cyd Consortiwm Canolbarth De Cymru.	Yn ôl yr angen	Aelodau'r CYSAG, Cynghorydd / Swyddogion	Amser yr aelodau; amser swyddogion; amser cynghorydd	Gweithio gyda CYSAGau eraill i rannu arfer da ac i gael dealltwriaeth well o faterion AG ac addoli ar y cyd yn y 5 awdurdod lleol.	Cafodd syniadau eu croesawu a'u trafod, ond nid oedd modd bwrw ymlaen â'r cynllun oherwydd amgylchiadau digynsail y pandemig

					a'r flaenoriaeth a roddwyd i'r datblygiadau cwricwlaidd / y Cwricwlwm Newydd.
--	--	--	--	--	---

Atodiad 4: CANLYNIADAU ARHOLIADAU TGAU 2019

TGAU ASTUDIAETHAU CREFYDDOL CWRS LLAWN 2019 (Blwyddyn 11)

	Pen-y-bont ar Ogwr 2017	Pen-y-bont ar Ogwr 2018	Pen-y-bont ar Ogwr 2019	Consortiwm 2019	Cymru 2019
A*-A	26.8%	32.3%	26.7%	26.0%	26.1 %
A*-C	69.6%	68.8%	62.7%	63.6%	63.0 %
A*- G	97.6%	97.7%	96.7%	94.7%	95.0 %

Nifer yr ymgeiswyr	991 o ymgeiswyr 9 o ysgolion (60.5% o'r cohort)	834 o ymgeiswyr 9 o ysgolion (57.9%)	750 o ymgeiswyr 8 o ysgolion (50.8% o'r cohort)	4533 o ymgeiswyr (47.2% o'r cohort)	10198 o ymgeiswyr (32.5% o'r cohort)
---------------------------	---	--	---	--	---

TGAU ASTUDIAETHAU CREFYDDOL CWRS BYR 2019 (Blwyddyn 11)

	Pen-y-bont ar Ogwr 2017	Pen-y-bont ar Ogwr 2018	Pen-y-bont ar Ogwr 2019	Consortiwm 2019	Cymru 2019
A*-A	3.0%	1.9%	26.7%	11.0 %	10.0%
A*-C	27.2%	25.9%	62.7%	38.0%	35.0%
A*- G	85.1%	76.4%	94.7%	73.8 %	87.0%
Nifer yr ymgeiswyr	335 o ymgeiswyr 7 o ysgolion ac Uned Cyfeirio Disgyblion (20.4% o'r cohort)	259 o ymgeiswyr 7 o ysgolion ac Uned Cyfeirio Disgyblion (17.9% o'r cohort)	162 o ymgeiswyr 5 o ysgolion (11.0% o'r cohort)	1768 o ymgeiswyr (18.4% o'r cohort)	6718 o ymgeiswyr (21.4% o'r cohort)

Atodiad 5

Cyfnod Allweddol 3 Lefelau Addysg Grefyddol Blwyddyn 9

Pen-y-bont ar Ogwr 2019

Yr holl ddisgyblion	Nifer ar y gofrestr	% Na ddyfarnwyd lefel iddynt	% a ddatgymhwyswyd	% Lefel 1	% Lefel 2	% Lefel 3	% Lefel 4	% Lefel 5	% Lefel 6	% Lefel 7	% Lefel 8	% Eithriadol	% Cyfanswm y disgyblion	% L 5+	% L 6+	% L 7+
Pen-y-bont ar Ogwr	1477	0.0	0.1	0.0	0.1	0.7	6.0	27.6	39.2	21.2	5.2	0.0	100.0	93.2	65.6	26.4
Consortiwm Canolbarth De Cymru	7340	0.2	0.4	0.1	0.2	2.1	8.6	31.2	37.2	18.4	1.9	0.0	100.0	88.7	57.5	20.4

Bechgyn	Nifer ar y gofrestr	% Na ddyfarnwyd lefel iddynt	% a ddatgymhwyswyd	% Lefel 1	% Lefel 2	% Lefel 3	% Lefel 4	% Lefel 5	% Lefel 6	% Lefel 7	% Lefel 8	% Eithriadol	% Cyfanswm y disgyblion	% L 5+	% L 6+	% L 7+
Pen-y-bont ar Ogwr	775	0.0	0.0	0.0	0.1	0.8	8.8	34.5	39.0	13.9	3.0	0.0	100.0	90.3	55.9	16.9
Consortiwm Canolbarth y De	3685	0.0	0.3	0.1	0.2	2.9	11.6	36.5	35.1	11.8	1.1	0.0	100.0	84.5	48.0	12.9

Merche	Nifer ar y gofrestr	% Na ddyfarnwyd lefel iddynt	% a ddatgymhwyswyd	% Lefel 1	% Lefel 2	% Lefel 3	% Lefel 4	% Lefel 5	% Lefel 6	% Lefel 7	% Lefel 8	% Eithriadol	% Cyfanswm y disgyblion	% L 5+	% L 6+	% L 7+
Pen-y-bont ar Ogwr	702	0.0	0.10	0.0	0.0	0.7	3.0	19.9	39.5	29.2	7.7	0.0	100.0	96.3	76.4	36.9
Consortiwm Canolbarth y De	3327	0.6	0.00	0.0	0.1	0.6	5.1	30.7	38.1	21.9	2.8	0.1	100.0	93.6	62.8	24.8

Y gwahaniaeth rhwng bechgyn a merched o ran canlyniadau AG yng Nghyfnod Allweddol 3

Ym mhob lefel, perfformiodd y merched yn well na'r bechgyn. Dyma'r gwahaniaethau canrannol:

	2019	2018	2017	2016	2015
L5+	6%	7.6%	3.3%	7%	7%
L6+	20.5%	22.7%	17.7%	29%	17%
L7+	20%	20.5%	18%	17.9%	

Atodiad 6: Dosbarthu ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYSAG

Caiff copiâu eu hanfon yn electronig at y cyrff perthnasol. Bydd yr adroddiad ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol a Chymdeithas CYSAGau Cymru i'w lawrlwytho.

- Aelodau CYSAG Pen-y-bont ar Ogwr
- Adran Addysg a Hamdden Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Holl ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cymdeithas CYSAGau Cymru
- Yr Adran Addysg a Sgiliau
- Llywodraeth Cymru
- Y Llyfrgell Genedlaethol
- Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru
- Consortiwm Canolbarth y De
- Estyn
- Mudiad Addysg Grefyddol (Cymru)
- Swyddog Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru
- Swyddog Esgobaethol Catholig Rhufeinig
- Cytûn

Atodiad 7: Cyfansoddiad y CYSAG

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Y Cyfansoddiad

Cylch gorchwyl

1. Cyngori'r ALI ynghylch materion cysylltiedig ag addoli ar y cyd yn ysgolion y sir.
2. Cyngori'r ALI ynghylch materion cysylltiedig ag addysg grefyddol. Caiff y cyngor ei roi'n unol â'r maes llafur cytunedig.
3. Penderfynu pa bryd, o fewn y raddfa amser statudol o bum mlynedd, y dylai'r ALI adolygu ei faes llafur cytunedig.
4. Trafod unrhyw newidiadau gofynnol yn y maes llafur cytunedig gyda'r ALI a Chynhadledd y Maes Llafur Cytunedig
5. Trafod â'r ALI y cymorth a gynigir ym maes addysg grefyddol yn ei ysgolion, gan roi sylw arbennig i ddulliau addysgu, y deunyddiau addysgu a ddewisir a'r hyfforddiant a roddir i athrawon.
6. Cynnig cyngor ynghylch unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig â'i swyddogaeth fel y gwêl orau.
7. Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith, a ddylai:
 - a. nodi unrhyw faterion y mae wedi cyngori'r ALI yn eu cylch;
 - b. disgrifio natur y cyngor yn fras;
 - c. nodi ei resymau dros gynnig cyngor ar unrhyw faterion na chyfeiriwyd atynt yn y lle cyntaf gan yr ALI;
 - d. cofnodi aelodaeth y CYSAG a dyddiadau'r cyfarfodydd a gynhaliwyd.
9. Cymryd rhan yng ngweithdrefnau cwynion statudol yr ALI os yw'r cwynion dan sylw'n ymwneud ag addysg grefyddol a/neu addoli ar y cyd.
10. Derbyn a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â cheisiadau gan benaethiaid ysgolion y sir i ddileu neu addasu'r gofyniad i addoli ar y cyd mewn ysgolion o'r fath fod yn gyfan gwbl Gristnogol ei natur, neu'n bennaf Gristnogol ei natur.

Cyfansoddiad

11. Bydd y cyngor yn cynnwys tri grŵp sy'n cynrychioli:
 - a. Yr enwadau Cristnogol a chrefyddol eraill hynny sydd, ym marn yr ALI, yn adlewyrchu traddodiadau crefyddol yr ardal yn briodol.
 - b. Y cymdeithasau athrawon hynny a ddylai, ym marn yr ALI, gael eu cynrychioli o ystyried amgylchiadau'r ardal.
 - c. Yr ALI.
12. Gall y Cyngor hefyd gyfethol aelodau.

13. Bydd aelodau'r Cyngor yn gwasanaethu am gyfnod o bedair blynedd. Gellir ailbenodi unrhyw aelodau y mae eu haelodaeth yn dirwyn i ben.
14. Mae aelodaeth y Cyngor yn ddarostyngedig i'r amod bod yr ALI wedi cymryd pob cam rhesymol i'w sicrhau ei hun fod y rhai a benodir yn gynrychioliadol o'r enwadau neu'r cymdeithasau dan sylw.
15. Rhaid i aelodau sy'n cynrychioli cymdeithasau athrawon gynnwys athrawon addysg grefyddol.
16. Gellir cael gwared ar aelodau o'r Cyngor os byddant yn peidio â bod yn gynrychioliadol o'r enwad, y gymdeithas neu'r Awdurdod y cawsant eu penodi i'w cynrychioli.
17. Gall unrhyw aelod o'r Cyngor ymddiswyddo o'i swydd ar unrhyw adeg.

Trafodion

18. Bydd y Cyngor yn cyfarfod o leiaf unwaith yn ystod pob tymor ysgol.
19. Bydd y Cyngor yn ethol cadeirydd ac is-gadeirydd o blith ei aelodau yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn academaidd. Ni ddylid dewis y cadeirydd a'r is-gadeirydd o'r un grŵp cynrychioliadol yn yr un flwyddyn. Gellir ailbenodi cadeirydd sy'n gadael ei swydd.
20. Yn achos unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu gan y Cyngor, dim ond y grwpiau cynrychioliadol ar y Cyngor fydd â hawl i bleidleisio, a bydd gan bob grŵp un bleidlais. Cyn y bleidlais ffurfiol, rhoddir cyfle i bob grŵp cynrychiadol benderfynu sut y bydd yn bwrw ei bleidlais.
21. Nid oes gan aelodau cyfetholedig hawl i bleidleisio.
22. Rhaid i'r agenda ar gyfer pob cyfarfod gael ei bennu gan y cadeirydd a'r is-gadeirydd mewn ymgynghoriad â chlerc y CYSAG, y Cyfarwyddwr Addysg a Swyddog Proffesiynol. Caiff gan unrhyw aelod o'r CYSAG sydd â hawl i bleidleisio gynnig eitemau i'w cynnwys ar yr agenda.
23. Yn achos unrhyw aelod nad yw'n gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor, gall y corff y mae'r person hwnnw'n ei gynrychioli enwebu dirprwy, ar yr amod bod y dirprwy'n bodloni'r meini prawf cymhwyster a bod Cyfarwyddiaeth Addysg yr ALI yn cael gwybod am y newid cyn y cyfarfod .
24. Ystyriir bod gan gyfarfod o'r Cyngor gworwm os yw o leiaf un aelod o bob un o'r tri grŵp cynrychioliadol yn bresennol.
25. Ni fydd y canlynol yn effeithio ar ddilysrwydd gweithrediadau'r Cyngor:
 - a. swydd wag yn aelodaeth y Cyngor neu
 - b. os na fydd aelod penodol o'r Cyngor a benodwyd i gynrychioli enwad neu gymdeithas benodol yn cynrychioli'r enwad neu'r gymdeithas dan sylw yn ystod y trafodion.
26. Gall y grwpiau cynrychioliadol ar y Cyngor, ac eithrio'r rhai sy'n cynrychioli'r

Awdurdod, alw, unrhyw adeg, am adolygiad o'r maes llafur cytunedig sydd ar waith yn yr Awdurdod. Bryd hynny, bydd Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig yn cael ei sefydlu a'i chynnull.

27. Bydd y Cyngor yn trafod ei adroddiad blynyddol yn y cyfarfod cyntaf a gaiff ei gynnal yn y flwyddyn academaidd. Ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r adroddiad fe'i hanfonir i gael ei gyhoeddi.
27. Bydd clerck y CYSAG yn trefnu bod copïau o'r adroddiad blynyddol yn cael eu hanfon i bob ysgol sirol o fewn yr Awdurdod, at yr Adran Addysg a Sgiliau, y Llyfrgell Genedlaethol ac at unigolion a sefydliadau eraill fel y gwêl yr ALI orau.